

WARM WALES ENERGY SAVING TIPS

STEPS TO HELP YOU MANAGE YOUR ENERGY BILLS AND KEEP YOUR HOME WARM AND SAFE

Make Your Home Warmer:

- Clear furniture from in front of your radiators so heat can circulate more easily
- Close curtains and doors during cold weather to keep the heat in
- Reduce draughts around windows, doors, cat / dog flaps, loft doors with shop bought, or home-made draught excluders
- Avoid drying clothes directly on the radiator which can make them work harder to provide the same level of heating, use a clothes airer instead
- Bleed radiators, this removes air pockets to make them run more efficiently
- Have your boiler serviced every year to keep it in tip-top condition.

CONTACT US:

0800 091 1786

www.warmwales.org.uk



Apply for support via our referral form on our 'Get Support' page on our website

Saving Money on Your Energy Bills:

- Install a smart meter (free from your energy supplier). It will send meter readings to your supplier so your bills are accurate, and the in-home display will show you exactly how much energy you're using
- If you don't have a smart meter, provide regular meter readings to your supplier to avoid estimated bills that can be inaccurate
- Switch off or unplug any appliances when not in use - if they have a stand-by light, a display or are hot to the touch they'll be using energy just by being plugged in
- Wash full loads of laundry when possible; try 30 degree washes instead of 40 degree
- The average UK household puts the kettle on 1,500 times a year - only fill it with the amount of water you need
- Keeping appliances clean and well maintained helps them be efficient - empty vacuum cleaners, de-scale kettles, washing machines and dishwashers, empty lint drawers on tumble dryers, defrost freezers regularly and repair seals on fridges and freezers if they break
- Turn your thermostats down by 1 degree, or more - most people find between 18°C and 21°C comfortable
- Use the timer for your heating so you're only heating your home when you need to.

CYNGHORION CYMRU GYNNES AR SUT I ARBED YNNI



CAMAU I'CH HELPU I REOLI EICH BILIAU YNNI A CHADW'CH CARTREF YN GYNNES AC YN DDIOGEL

Gwnewch Eich Cartref yn Gynhesach:

- Symudwch unrhyw ddodrefn o flaen eich rheiddiaduron fel y gall gwres gylchredeg yn haws
- Caewch lenni a drysau yn ystod tywydd oer i gadw'r gwres i mewn
- Gwnewch bethau atal drafftiau, neu prynwch rai o'r siop, i leihau drafftiau o amgylch ffenestri, drysau, fflapiau cath / cŵn, drysau atig
- Dylech osgoi sychu dillad yn uniongyrchol ar y rheiddiadur gan fod hynny'n gallu gwneud iddynt weithio'n galetach i ddarparu'r un lefel o wres, yn hytrach defnyddiwch hors ddillad
- Dylech 'waedu' eich rheiddiaduron, mae hyn yn cael gwared ar bocedi aer i wneud iddynt weithio'n fwy effeithlon
- Gwnewch yn siŵr bod eich bwyler yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn er mwyn iddo weithio mor effeithlon â phosibl.

CYSYLLTWCH Â NI:

 0800 091 1786

 www.warmwales.org.uk



Gwnewch gais am gymorth trwy ein ffurflen atgyfeirio ar ein tudalen 'Cael Cefnogaeth' ar ein gwefan

Arbedwch Arian ar Eich Biliau Ynni:

- Gosodwch fesurydd clyfar (cewch un am ddim gan eich cyflenwr ynni). Bydd yn anfon darlleniadau mesurydd at eich cyflenwr fel bod eich biliau'n gywir, a bydd y sgrin yn dangos i chi faint yn union o ynni rydych yn ei ddefnyddio
- Os nad oes gennych chi fesurydd clyfar, rhowch ddarlleniadau rheolaidd i'ch cyflenwr er mwyn osgoi biliau ar sail amcangyfrif gan eu bod yn gallu bod yn anghywir
- Diffoddwch neu tynnwch blygiau unrhyw offer pan nad ydynt yn cael eu defnyddio - os oes ganddynt olau 'stand-by', sgrin wedi'i oleuo neu os ydynt yn teimlo'n boeth, byddant yn defnyddio ynni gan eu bod wedi'u plygio i mewn
- Golchwch lwythi llawn o ddillad pan fo'n bosibl; golchwch ar 30 gradd yn lle 40 gradd
- Ar gyfartaledd, mae aelwyd yn y DU yn berwi'r tegell 1,500 o weithiau'r flwyddyn - defnyddiwch faint o ddŵr sydd ei angen arnoch yn unig
- Mae cadw offer yn lân a'i gynnal yn briodol yn eu helpu i fod yn effeithlon - gwagiwch eich hwfer, glanhewch eich tegell, peiriannau golchi a pheiriannau golchi llestri, gwagiwch ddroriau gwlaniach ar beiriannau sychu dillad, ceisiwch ddadmer eich rhewgell yn rheolaidd a thrwsiwch unrhyw sêl ar oergelloedd a rhewgelloedd os byddant yn torri
- Trowch eich thermostatau i lawr 1 gradd, neu fwy - mae'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried bod rhwng 18°C and 21°C yn gyfforddus
- Defnyddiwch yr amseredd ar eich system wresogi fel eich bod yn gwresogi dim ond pan fydd angen.